

Centre of
expertise
on child
sexual abuse



Ariennir yn Rhannol gan
Lywodraeth Cymru
Part Funded by
Welsh Government

Datgelu graddfa cam-drin plant mewn cofnodion gofal cymdeithasol

Cais am gynigion

Dyddiad cau ar gyfer derbyn cynigion: 5pm, Dydd Llun 19 Tachwedd 2018

Cynnwys

1. Ynglŷn â'r Ganolfan CSA.....	3
2. Trosolwg o'r Prosiect.....	3
3. Manyleb	4
4. Yr awdurdod contractio	5
5. Amodau'r cynnig	5
6. Gofynion cyflenwyr	6
7. Llywodraethu a moeseg	6
8. Cyllideb	6
9. Talu ac anfonebu	7
10. Gofynion cynigion.....	7
11. Dychwelyd cyfarwyddiadau'r cynnig	7
Atodiad A: Ffurflen gais	8
Atodiad B: Amserlenni dangosol	10

1. Ynglŷn â'r Ganolfan CSA

Nod y Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol (y Ganolfan CSA) yw creu dyfodol lle mae plant yn rhydd rhag pob bygythiad a niwed o gam-drin rhywiol, trwy wella'n sylweddol sut yr ydym yn atal ac yn ymateb i'r mater trwy ddeall beth yn union yw ei achosion, ei gwmpas, ei raddfa a'i effaith. Wedi ei hariannu gan y Swyddfa Gartref a'i rhedeg gan Barnardo's, mae'r Ganolfan yn annibynnol a byddwn yn herio unrhyw rwystrau, tybiaethau, tabŵs a ffyrdd o weithio sy'n ein hatal rhag gwella ein dealltwriaeth a gwella ein dull o fynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol.

Mae'r Ganolfan CSA yn gweithio yng Nghymru a Lloegr. Mae'r astudiaeth hon yn cael ei chynnal yng Nghymru ac mae'n cael ei datblygu a'i hariannu mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru.

2. Trosolwg o'r Prosiect

Un o brif nodau'r Ganolfan CSA yw gwella dealltwriaeth a chodi ymwybyddiaeth o raddfa a'r newid yn natur cam-drin plant yn rhywiol. Mewn [adolygiad cwmpasu](#) a gyhoeddwyd fis Gorffennaf 2017, nodwyd fod nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant yng Nghymru o ganlyniad i gam-drin rhywiol, fel cyfran o gyfanswm nifer y plant ar y gofrestr, wedi gostwng o 21% yn 1993/94 i 4% yn 2016/17 (a gwelwyd gostyngiad tebyg yn Lloegr). Mae consensws proffesiynol yng Nghymru o'r farn nad yw ffigurau'r gofrestr amddiffyn plant yn adlewyrchiad cywir o wir nifer yr achosion o gam-drin plant yn rhywiol y mae awdurdodau lleol yn delio â hwy, ac nad yw'r gostyngiad yn y ffigurau hynny'n cyd-fynd â'r cynnydd mewn troseddau cam-drin plant sy'n cael eu cofnodi gan yr heddlu. Nododd ein hadolygiad hefyd amrywiadau rhanbarthol sylweddol rhwng awdurdodau lleol o ran cyfraddau canfod cam-drin plant yn rhywiol, ac rydym yn argymhell bod angen rhagor o ymchwil i ddeall y rhesymau am hyn.

Heb ffigurau mwy manwl, mae'n anodd ymateb i gam-drin rhywiol ac i ddatblygu a chomisiynu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion dioddefwyr. Mae cynnig y cymorth cywir i blant pan fydd pryderon am gam-drin rhywiol neu ymddygiad rhywiol niweidiol yn debygol o leihau risgiau i iechyd meddwl tymor hir ac anawsterau eraill, felly mae'n bwysig canfod sut mae gwasanaethau cymdeithasol yn ymateb i bryderon am gam-drin plant yn rhywiol.

Nodau'r ymchwil

Nod yr astudiaeth hon yw ystyried presenoldeb pryderon sy'n gysylltiedig ag achosion o gam-drin rhywiol gwirioneddol neu bosibl plant nad ydynt ar y gofrestr amddiffyn plant oherwydd cam-drin rhywiol ond sy'n cael eu hasesu gan neu sy'n cael gwasanaethau gan dimau gofal cymdeithasol (o dimau help cynnar i dderbyn gofal). Rydym am edrych ar raddfa pryderon am gam-drin rhywiol a ganfuwyd mewn sampl o'r plant hyn ac ymateb y gwasanaeth – y cymorth mae'r plant hyn yn ei gael o ran y cam-drin rhywiol gwirioneddol neu bosibl.

Rydym eisiau deall hefyd beth yw graddfa pryderon cam-drin plant yn rhywiol sy'n gysylltiedig â phlant sydd ar y gofrestr amddiffyn plant o dan categorïau eraill o gam-drin (emosiynol, corfforol neu esgeulustod), ac i ddeall pam nad yw'r plant hynny wedi cael eu cofnodi ar y rhestr o dan gam-drin rhywiol.

Hefyd, bydd yr astudiaeth yn edrych ar sampl o achosion sydd wedi'u hatgyfeirio at ofal cymdeithasol yn benodol oherwydd pryderon ynglŷn â cham-drin plant yn rhywiol, a bydd yn cofnodi canlyniad yr atgyfeiriadau hynny (ac, mewn achosion lle na chymerwyd camau pellach, beth oedd y rhesymau am beidio gweithredu).

Mae'r astudiaeth yn gobeithio cael ateb i'r cwestiynau ymchwil canlynol:

- Sut mae ymarfer a chofnodi cam-drin plant yn rhywiol (CSA) yn gwahaniaethu yn ardaloedd dau awdurdod lleol yng Nghymru?
- Ymhlith sampl o blant sy'n cael cymorth gan dimau gofal cymdeithasol, mewn sawl achos mae pryderon am CSA wedi'u cofnodi? Os yw CSA yn cael ei gofnodi fel pryder ond nid dyna'r prif bryder, pa ymyriadau mae plant yn eu cael ar gyfer CSA?
- Pa gyfran o blant lle mynegwyd pryderon am CSA yn eu cylch sydd wedi'u 'cuddio' o dan gategorïau eraill o gam-drin (esgeulustod, cam-drin emosiynol, cam-drin corfforol) ar y gofrestr amddiffyn plant? A yw'r plant hyn sydd wedi'u cofnodi o dan gategorïau eraill o gam-drin yn cael unrhyw ymyriad ar gyfer CSA?
- Beth yw'r rhesymau dros gofnodi plant o dan gategorïau eraill o gam-drin ar y gofrestr, er bod CSA wedi'i nodi fel achos pryder?
- Beth sy'n digwydd i blant sy'n cael eu hatgyfeirio at wasanaethau cymdeithasol oherwydd pryderon ynglŷn â CSA, os nad yw'r pryderon hynny'n cyrraedd y trothwyon i alluogi plant i gael gofal a chymorth?

Bydd angen i'r dadansoddiad gael ei ysgrifennu mewn adroddiad cryno, sy'n ateb cwestiynau'r ymchwil ac amlygu'r goblygiadau i ymarfer.

Cost ac amserlenni

Rydym yn amcangyfrif y bydd yr astudiaeth yn golygu 10–15 diwrnod o waith maes ym mhob awdurdod lleol (cyfanswm o 20–30 diwrnod). Bydd yr awdurdodau lleol yn cael eu recriwtio gan y Ganolfan CSA ac maent yn debygol o fod mewn gwahanol rannau o Gymru. Bydd angen gwneud y gwaith maes rhwng **Rhagfyr 2018 a Chwefror 2019**. Bydd angen i'r adroddiad gydag argymhellion gael ei gynhyrchu erbyn **diwedd Mawrth 2019**.

Mae'r gost a neilltuir ar gyfer yr ymchwil hwn yn **£12,240** gan gynnwys TAW.

3. Manyleb

Mae'r Ganolfan CSA yn chwilio am unigolyn neu sefydliad sydd â phrofiad o ymchwil gofal cymdeithasol perthnasol i gynnal archwiliad ffeil achos o sampl o ffeiliau plant mewn gwahanol dimau gofal cymdeithasol yn ardal dau awdurdod lleol yng Nghymru. Bydd y rhan fwyaf o'r ymchwil yn cael ei wneud gan ddefnyddio ffeiliau gofal cymdeithasol electronig. Ni fydd angen edrych ar ffeiliau papur oni bai bod cofnodion electronig yn cyfeirio at wybodaeth berthnasol.

Rhaid i gynigwyr allu dangos:

- profiad blaenorol o gynnal ymchwil gan ddefnyddio ffeiliau gofal cymdeithasol neu asiantaethau eraill a / neu systemau electronig gofal cymdeithasol

- gwybodaeth drylwyr o ymarfer gwaith cymdeithasol – mae'n hanfodol eu bod yn deall sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud, er mwyn olrhain yr wybodaeth mewn ffeiliau a phenderfynu pa bryd i ymgynghori â ffeiliau papur
- profiad o ddatblygu dulliau o gasglu data meintiol
- sgiliau ysgrifennu adroddiadau rhagorol, a'r gallu i ysgrifennu ar gyfer cynulleidfa o ymarferwyr gan amlygu'r goblygiadau i ymarfer
- dealltwriaeth drylwyr o egwyddorion cynnal ymchwil foesebol a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data
- cliriad cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)
- bod ar gael i dreulio 20–30 diwrnod yng Nghymru yn ystod y cyfnod gwaith maes penodedig.

Mae gan y Ganolfan CSA ymchwilydd penodol ar y staff i helpu'r prosiect hwn yn enwedig i ddatblygu dulliau casglu data, a bydd y Ganolfan CSA yn cynnal ymchwil ansoddol atodol (cyfweiliadau â staff awdurdodau lleol). Bydd y cynigydd llwyddiannus a staff y Ganolfan CSA yn gyd-awduron yr adroddiad ar yr ymchwil.

Mae holl adroddiadau'r Ganolfan CSA yn dilyn proses adolygu drylwyr cyn eu cyhoeddi. Byddwn yn coladu ac yn gwirio holl sylwadau'r adolygwyr cyn eu hanfon at y cyd-awduron, a ddylai allu ymateb yn effeithiol ac effeithlon i'r sylwadau. Bydd angen ystyried hyn yn y broses gynllunio ac yn yr amserlenni.

4. Yr awdurdod contractio

Yr awdurdod contractio yw Barnardo's (Rhif Cwmni: 61625), sydd â'u swyddfa gofrestredig yn Tanners Lane, Barkingside, Ilford, Essex IG6 1QG.

Bydd Barnardo's yn gweithredu trwy'r Ganolfan CSA ar gyfer y contract hwn. Mae peth gwahanu rhwng y ddau, sy'n hanfodol i hygyrdd ac annibyniaeth y Ganolfan CSA.

5. Amodau'r cynnig

Mae'r wybodaeth a roddwyd gan y Ganolfan CSA wedi'i rhoi'n gwbl ddiffuant a chredir ei bod yn gywir ar adeg ei chyhoeddi.

Rhaid i'ch cynnig ddangos sut y byddwch yn cyflawni'r manylebau; dylid gwneud hyn ar y ffurflen gais (amgaewyd fel Atodiad A), ac a ddylai gael ei chyflwyno â CV byr ac enghraifft o waith ysgrifenedig cryno, hygyrch.

Gall y Ganolfan CSA gysylltu ag un neu ragor o ganolwyr i sicrhau y bydd eich gwaith yn cyrraedd ein safonau ni.

Gall cynigion gael eu gwrthod os nad ydynt wedi eu cwblhau'n unol â'r cyfarwyddiadau neu os ydynt yn cynnwys hepgoriadau.

Ni fyddwch yn gallu newid dogfennau eich cynnig ar ôl iddynt gael eu cyflwyno. Gadewch i ni wybod cyn gynted â phosibl am unrhyw anghysonderau neu hepgoriadau yn eich ymateb.

Bydd dogfennau cynigion yn parhau'n eiddo i'r Ganolfan CSA a byddant yn cael eu defnyddio i ddibenion sy'n gysylltiedig â'ch cynnig yn unig.

Mae'r Ganolfan CSA yn cydymffurfio â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, sy'n golygu y gall unrhyw wybodaeth a gyflwynir i'r Ganolfan CSA gael ei datgelu o dan y rhwymedigaethau hyn; os ydych chi o'r farn bod unrhyw rannau o'ch ymateb yn sensitif am resymau masnachol, dylech eu nodi hynny. (Noder: efallai y bydd yn rhaid i ni ddatgelu'r rhain o dan ofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth)

Rydych chi'n gyfrifol am yr holl gostau a threuliau sy'n codi yn sgil paratoi eich cynnig.

Nid yw'r broses o ofyn am gynigion a gohebiaeth gysylltiedig yn ffurfio rhan o unrhyw ran o gytundeb contractiol.

Rhaid i unrhyw wybodaeth a roddir i chi gan y Ganolfan CSA gael ei thrin yn gyfrinachol oni bai ei bod yn wybodaeth gyhoeddus eisoes.

Mae annibyniaeth yn egwyddor allweddol i'r Ganolfan CSA, a bydd yn rhaid i chi ddatgelu os oes gennych chi unrhyw berthynas fusnes neu bersonol neu gysylltiadau â'r Ganolfan CSA, y Swyddfa Gartref, Barnardo's, Llywodraeth Cymru neu unrhyw rai o bartneriaid eraill y Ganolfan CSA.

Gall y Ganolfan CSA ofyn i chi i gyflwyno rhagor o wybodaeth o fewn amserlen resymol. Dylai'r wybodaeth hon gael ei hanfon i'r cyfeiriad a geir yn Adran 11 isod.

6. Gofynion cyflenwyr

Mae'r Ganolfan CSA yn datgan bod yn rhaid i gynigion gael eu cyflwyno ar ffurflen gais yn unig (gweler Atodiad A). Rhaid amgáu gyda'r ffurflen CV yr unigolyn neu unigolion sydd yn y cynnig i wneud y gwaith, ac enghraifft o waith ysgrifenedig gan y prif ymgeisydd. Rhaid i'r ffurflen gais gynnwys manylion cyswllt un canolwr; rhaid i chi sicrhau bod eich canolwr yn hapus i'r Ganolfan CSA gysylltu â hwy cyn bod unrhyw waith yn cael ei wneud.

7. Llywodraethu a moeseg

Bydd y comisiwn hwn yn cael ei oruchwylio gan Sophie Laws (Dirprwy Gyfarwyddwr Ymchwil) a bydd yn cael ei reoli o ddydd i ddydd gan Kairika Karsna (Uwch Swyddog Ymchwil a Gwerthuso). Bydd Kairika yn cydweithio'n glos â'r ymchwilydd a benodir i ddatblygu'r dulliau ac i helpu â'r gwaith maes.

Bydd y cynnig yn dilyn proses foeseg gyda Phwyllgor Moeseg y Ganolfan CSA. Bydd y Ganolfan CSA yn cydlynu'r broses hon.

Bydd yr adroddiad terfynol yn destun adolygu mewnol gan y Ganolfan CSA ac adolygiad allanol gan arbenigwyr â chefnidir mewn ymarfer ac ymchwil a fydd yn cael eu dethol.

8. Cyllideb

Mae'r Ganolfan CSA a Llywodraeth Cymru yn dymuno neilltuo hyd at £12,240 (gan gynnwys TAW) ar gyfer yr ymchwil arfaethedig.

9. Talu ac anfonebu

Dylai anfonebau gael eu cyflwyno cyn gynted ag y bydd yr holl ofynion wedi'u cwblhau ac wedi'u derbyn gan y Ganolfan CSA.

Dylid cyfeirio anfonebau at Louise Middleton, CSA Centre, Barnardo House, Tanners Lane, Barkingside IG6 1QG.

Gofynnir i chi sicrhau eich bod yn cynnwys y cyfeirnod prynwr 'XT01067911' wedi'i deipio ar bob anfoneb a'u bod yn cael eu hanfon mewn negeseuon e-bost unigol fel dogfennau PDF unigol at apinvoices@barnardos.org.uk ac at Louise.Middleton@csacentre.org.uk.

10. Gofynion cynigion

Rhaid i bob cynnig:

- gyrraedd cyn y dyddiad cau
- cael ei wneud ar y ffurflen gais (gweler Atodiad A)
- cynnwys CV ar gyfer pob unigolyn a enwir i wneud y gwaith
- cynnwys o leiaf un enghraifft o waith cyhoeddedig cryno, hygyrch, wedi'i ysgrifennu gan y prif ymgeisydd, sy'n dangos gallu i gyflawni'r gwaith
- fod wedi'i lofnodi gan unigolyn awdurdodedig (gan gynnwys yn electronig)

Rhaid i ddogfennaeth y cynnig gynnwys:

- atebion eglur sy'n canolbwyntio'n unig ar y gofyniad penodol dan sylw
- lefel ddigonol o wybodaeth i ddangos sut y byddai'r gofynion yn cael eu cyflawni
- atebion gonest
- ymateb wedi'i lunio'n dda sy'n ei gwneud yn hawdd i adolygwyr ddeall yr atebion, gyda chyfeiriadau manwl at wybodaeth ychwanegol sydd wedi'i rhoi
- methodoleg sydd wedi'i llunio'n eglur ar gyfer gofynion y fanyleb
- ystyriaeth glir i'r risgiau y gellir eu rhagweld a sut mae'r cynigydd yn bwriadu eu lliniaru
- tystiolaeth eglur o brofiad
- gwybodaeth fanwl am ba unigolion fydd yn gwneud y gwaith
- manylion cyswllt un canolwr.

11. Dychwelyd cyfarwyddiadau'r cynnig

Y dyddiad cau ar gyfer dychwelyd cynigion: **5pm ar dydd Llun 19 Tachwedd 2018.**

E-bost: info@csacentre.org.uk

Cyfeiriad post: FAO Kairika Karsna, Centre of expertise on child sexual abuse, Barnardo House, Tanners Lane, Barkingside IG6 1QG

Marciwch yr amlen 'Private and confidential'.

Atodiad A: Ffurflen gais

Enw: [Click here to enter text.](#)

Sefydliad: [Click here to enter text.](#)

Enw(au) cydymgeisydd a sefydliad(au): [Click here to enter text.](#)

Profiad o wneud ymchwil gan ddefnyddio ffeiliau neu systemau gofal cymdeithasol (neu asiantaeth arall):

Gwybodaeth am ymarfer gwaith cymdeithasol:

Profiad o ddadansoddiad ansoddol a datblygu dulliau ymchwil meintiol:

Profiad o ysgrifennu adroddiadau ar gyfer cynulleidfaoedd o ymarferwyr

Y fethodoleg a gynigir:

Risgiau a lliniaru:

Manylion cyswllt canolwr:

Rwyf yn cadarnhau fod mod wedi amgáu CV ar gyfer yr aelod arweiniol a phob cyd-ymgeisydd, ynghyd ag enghraifft o waith ysgrifenedig

Llofnod

Dyddiad

Atodiad B: Amserlenni dangosol

Dyddiad	Gweithgarwch
1 Tachwedd 2018	Ceisiadau am gynigion yn cael eu hanfon allan
9 Tachwedd 2018	Dyddiad cau ar gyfer cwestiynau ac ymhelaethu
13 Tachwedd 2018	Dosbarthu ymatebion
19 Tachwedd 2018	Dyddiad cau ar gyfer derbyn cynigion
26 Tachwedd 2018	Cwblhau llunio rhestr fer a hysbysu ymgeiswyr
Wythnos yn dechrau ar 3 Rhagfyr 2018	Cynnal cyfweiliadau
10 Rhagfyr 2018	Dyfarnu'r Contract
Mawrth 2019	Cwblhau'r prosiect